# Cyngor Sir y Fflint

# Polisi Cynhyrchu Incwm

**Hydref 2017**

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Amcanion a Dulliau Gweithredu | 1 |
| 2 | Egwyddorion | 3 |
| 3 | Y broses ar gyfer pennau ffioedd a thaliadau | 4 |
| 4 | Gostyngiadau | |
| 5 | Templed Datganiad Incwm | 10 |

# 1 Amcanion a Dulliau Gweithredu

## *1.1 Amcanion*

Amcanion y polisi hwn yw:

- Cynhyrchu cymaint o refeniw ag sy’n bosib gan adennill costau’n llawn lle bynnag y bo modd;
- Sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu’r gallu i dalu;
- Cymharu costau gyda’n sector ein hunain a’r farchnad;
- Mabwysiadu prisio gwahaniaethol ar gyfer rhai gwasanaethau penodol pan fo rheswm da dros wneud hynny;
- Sefydlu proses a strwythur llywodraethu cyson;
- Sicrhau bod set o egwyddorion a meini prawf clir a chyson yn sail i bob penderfyniad a wneir;
- Ystyried unrhyw gystadleuaeth i ddarparu’r gwasanaeth gan y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol;
- Pennu prisiau fel rhan o ddull marchnata’r gwasanaeth;
- Sicrhau bod ffioedd a thaliadau’n cael eu pennu mewn modd sy’n ategu nodau polisi ehangach y Cyngor; a
- Casglu’r costau mor effeithlon ag sy’n bosib, cyn darparu’r gwasanaeth, a chynnig cymaint o ddulliau talu ag sy’n bosib i gwsmeriaid.

## *1.2 Dull Gweithredu*

Mae’r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau i drigolion, i’r gymuned ac i ymwelwyr y gall godi ffi neu dâl amdanynt a chynhyrchu incwm o ganlyniad.

Mae’n sefydlu’r broses ar gyfer pennu’r ffioedd a’r taliadau a’r egwyddorion allweddol y dylid eu defnyddio wrth eu pennu.

Nod lefel uchel y Cyngor yw cynhyrchu’r mwyaf posib o incwm lle bynnag y bo hynny’n bosib. Bydd hyn yn cyfrannu at gefnogi a darparu gwasanaethau rheng flaen allweddol. Rhaid i’r broses o bennu ffioedd a thaliadau fod yn gysylltiedig â’r broses o gynllunio cyllideb flynyddol y Cyngor a phroses gynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor, er mwyn creu dull gweithredu strategol a chydlynol.

Bydd angen i unrhyw ddull o gynhyrchu incwm fod yn hyblyg o reidrwydd, gan fod hwn yn faes cymhleth. Er enghraifft, efallai na fydd cynhyrchu’r incwm mwyaf posib bob amser yn

golygu cynyddu ffioedd a thaliadau. Mewn meysydd lle mae yna gystadleuaeth am wasanaethau'r cyngor, efallai y byddai'n fwy priodol gostwng ffioedd a thaliadau er mwyn ennill cyfran fwy o'r farchnad.

Gallai'r Cyngor ddewis cynnig cymorthdaliadau er mwyn hyrwyddo gwasanaethau ymysg unigolion na fyddai'n gallu fforddio'r gwasanaeth fel arall. Rhaid i gymorthdaliadau o'r fath fod yn dryloyw, yn hawdd eu deall yn iawn, gyda sail resymegol glir, gan mai talwyr treth y cyngor sy'n talu am y cymhorthdal bob tro y mae defnyddiwr gwasanaeth yn talu llai na chost llawn y gwasanaeth.

Trwy ddefnyddio taliadau a gostyngiadau yn strategol, gall cynghorau ddylanwadu ar ymddygiad eu trigolion yn unol â nodai polisi ehangach y Cyngor. Gall y Cyngor hefyd ddangos gwerth ei wasanaethau ac annog pobl i beidio camddefnyddio gwasanaethau o'r fath.

Nod y ddogfen hon yw cefnogi Aelodau a Swyddogion y Cyngor i daro cydbwysedd priodol rhwng y pwysau a'r blaenoriaethau hyn sy'n groes i'w gilydd.

## 2 Egwyddorion

Mae'r adran hon yn nodi'r egwyddorion trosfwaol y dylid eu defnyddio wrth bennu ffioedd a thaliadau ar draws y Cyngor.

Dylai ffioedd a thaliadau Cyngor Sir y Fflint:

- Gynhyrchu'r lefel uchaf bosib o incwm o'r gwasanaeth o fewn y fframwaith cyfreithiol priodol sy'n llywodraethu'r ffioedd hynny;
- Sicrhau bod ffioedd yn dryloyw a bod defnyddwyr yn cael rhybudd rhesymol ohonynt;
- Ystyried natur y galw am y gwasanaeth ac unrhyw wybodaeth am y farchnad sydd ar gael;
- Ategu nodau ac amcanion polisi ehangach y Cyngor;
- Cynyddu yn unol â chwyddiant, o leiaf, bob blwyddyn, onid oes yna sail resymegol glir dros beidio â gwneud hynny neu dros ostwng lefel y ffi mewn termau real;
- Ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth;

Cydnabyddir bod nifer o'r egwyddorion hyn yn groes eu natur ac y dylai fod trefniadau clir ar waith i benderfynu ar y blaenoriaethau pennaf ym mhob achos lle mae gwrthdaro'n codi.

# 3 Y broses ar gyfer pennau ffioedd a thaliadau

## *3.1 Trosolwg*

Mae adran hon y polisi'n nodi'r broses ar gyfer pennu ffioedd a thaliadau ar draws y Cyngor.

Y nod yw sefydlu proses dryloyw fydd yn cael ei chynnal bob blwyddyn, neu'n amlach os bydd angen ar sail newid mewn amgylchiadau, gan sicrhau fod pob un o adrannau'r Cyngor yn ystyried yr un egwyddorion a meini prawf wrth wneud penderfyniadau ar lefel ffioedd a thaliadau.

## *3.2 Monitro Incwm a Llywodraethu*

Yn bwysicaf oll, mae angen strwythur llywodraethu er mwyn safoni'r broses o bennu ffioedd a thaliadau ac i sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn seilio'u penderfyniadau'n gyson ar y meini prawf priodol.

Er y diben hwn, bydd cynhyrchiad incwm yn cael ei fonitro trwy fyrddau rhaglenni portffolio presennol.

Mewn perthynas â rheoli incwm yn benodol, bydd bwrdd y rhaglen yn:

- Derbyn cynigion i addasu ffioedd a thaliadau yn flynyddol. Gellir gwneud hyn fel rhan o'r broses o osod cyllideb neu ar unrhyw adeg briodol arall yn ystod y flwyddyn. Pryd bynnag y bydd hyn yn digwydd, bydd y broses yn cael ei hystyried yng nghyd-destun Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) trosfwaol y Cyngor ;
- Adolygu'r cynigion hyn er mwyn sicrhau bod y meini prawf priodol yn sail iddynt; ac
- Argymell y broses briodol i'w chymeradwyo.

Ni fydd gan Fyrddau Rhaglenni awdurdod i gymeradwyo pennu ffioedd a thaliadau. Cyfrifoldeb y Prif Swyddogion unigol mewn ymgynghoriad â'u Haelodau Cabinet priodol dan broses pwerau dirprwyedig fydd hyn, ac/neu'r Cabinet neu'r Cyngor Llawn, yn ôl yr angen.

Bydd y Bwrdd hefyd yn monitro perfformiad cynhyrchu incwm gwasanaethau yn erbyn targedau fydd wedi'u gosod ymlaen llaw.

Dylid defnyddio'r Bwrdd hefyd fel porth i adolygu buddsoddiadau achosion busnes sy'n gysylltiedig ag incwm a chynigion newydd i gyflwyno ffioedd a thaliadau.

### *3.3 Y Broses*

Bydd y broses o bennu ffioedd a thaliadau yn cynnwys y camau canlynol.

Bydd maes gwasanaeth pob portffolio yn cynnal y broses o leiaf unwaith y flwyddyn.

***Cam 1***

Ar y cyd â'r cylch cynllunio cyllideb, bydd gofyn i feysydd gwasanaeth adolygu lefelau presennol ffioedd a thaliadau pob gwasanaeth y codir tâl amdano.

Dylai'r adolygiad hwn arwain at greu Datganiad Incwm sy'n amlinellu cynigion y gwasanaeth ar gyfer addasu ffioedd a thaliadau a chyflwyno unrhyw ffioedd newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Dylai'r Datganiad Incwm ddangos sut y mae'r gwasanaeth wedi rhoi ystyriaeth i'r rhestr wirio ganlynol o feysydd pwysig i'w hystyried:

- Gwybodaeth am natur ac elastigedd y galw;
- Meincnodi gydag awdurdodau lleol eraill;
- Dealltwriaeth o'r farchnad ar gyfer darparu'r gwasanaeth, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth amgen o'r sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol;
- Gwerthfawrogiad o gostau llawn darparu'r gwasanaeth, gan gynnwys gorbenion;
- Goblygiadau lefel y ffioedd a'r taliadau ar gyfanswm yr incwm y mae'r gwasanaeth yn ei gynhyrchu, ac effaith hyn ar gyllidebau'r gwasanaeth a'r Cyngor;
- Effaith unrhyw gynnydd ar ddefnyddwyr y gwasanaeth;
- A ddylid parhau i gynnig gostyngiad i ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys:
    - Y sail resymegol dros gynnig gostyngiad i ddefnyddwyr gwasanaeth;
    - Tystiolaeth bod y gostyngiad yn hyrwyddo'r gwasanaeth ac o fudd i'r defnyddwyr gwasanaeth sydd â'r mwyaf o angen ac sydd fwyaf mewn perygl; a
    - Goblygiadau ariannol unrhyw ostyngiad.
- Nodau ac amcanion polisi ehangach y Cyngor;
- Yr effaith ar gymunedau; a
- Materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dylid cynnwys cynigion am dargedau incwm ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol hefyd. Dylai'r targedau hyn gynnwys incwm a gynhyrchir o ffioedd a thaliadau statudol.

Mae templed ar gyfer y Datganiad Incwm i'w weld yn adran 5 y polisi hwn. Mae hwn yn ceisio sicrhau y rhoddir ystyriaeth i bob un o'r eitemau uchod ar y rhestr wirio wrth adolygu ffioedd a thaliadau.

Yna, caiff y Datganiad Incwm ei anfon i Fwrdd y Rhaglen berthnasol ei ystyried.

***Cam 2***

Bydd Bwrdd y Rhaglen yn asesu a darwyd y cydbwysedd cywir rhwng buddiannau cystadleuol o ystyried y cyd-destun ariannol ehangach, ac yn cynghori'r maes gwasanaeth am unrhyw newidiadau y gellid fod angen eu gwneud.

Yna bydd Bwrdd y Rhaglen yn penderfynu a ddylid anfon y cynigion i gael eu cymeradwyo ai peidio.  Yn benodol, bydd Bwrdd y Rhaglen yn disgwyl:

- Y dylai gwerth y ffioedd a'r taliadau gael eu cynnal o leiaf mewn termau real dros amser a'u cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant;

- Y bydd unrhyw wasanaethau dewisol nad ydynt yn adennill eu costau'n llawn yn egluro pam eu bod yn gweithredu ar ddiffyg, ac yn bwysicach fyth, sut y byddant yn adennill eu costau'n llawn, gyda chynllun i wneud hynny; ac

- Y bydd yr holl ostyngiadau'n cael eu cyfiawnhau, gyda thystiolaeth bod y gostyngiad o fudd i'r gymuned darged, gan egluro goblygiadau ariannol y gostyngiad i gyllideb ehangach y gwasanaeth.

***Cam 3***

Pan fydd Bwrdd y Rhaglen wedi cefnogi'r cynigion mewn egwyddor, bydd y Bwrdd yn argymell a ddylid anfon y cynigion i'w cymeradwyo dan broses pwerau dirprwyedig ai peidio.

Bydd yr egwyddorion a'r canllawiau canlynol yn gymwys yma:

- Dylid tybio y bydd y cynnig yn cael ei anfon i'w gymeradwyo dan bwerau dirprwyedig fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

- Os bydd y cynnig yn codi pryder y gallai fod yn wleidyddol ddadleuol, dylid ei gyfeirio yn y lle cyntaf at yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros y Gwasanaeth, ar y cyd â'r Prif Swyddog, i'w ystyried ymhellach a'i gymeradwyo, a gallent hwythau ddewis ei gyfeirio wedyn at y Cabinet i'w gymeradwyo.

Bydd pob cynnig yn cael ei anfon i'w gymeradwyo gan ddefnyddio'r dulliau a gefnogir

gan Fwrdd y Rhaglen ac, os caiff ei gymeradwyo, bydd yn cael ei weithredu gan y gwasanaethau.

Dylid anfon targedau incwm ymlaen i'r adran Cyllid Corfforaethol, cytuno arnynt a'u ffactorio i mewn i'r broses o bennu'r gyllideb derfynol/ y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

***Cam 4***

Dylai'r meysydd gwasanaeth sefydlu trefniadau i roi gwybod i ddefnyddwyr y gwasanaeth am unrhyw newidiadau i ffioedd a thaliadau.

Dylid cyflwyno'r wybodaeth mewn rhannau i sicrhau y cyflëir y negeseuon cywir i'r budd-ddeiliaid cywir, ddylai gynnwys, lle bo'n briodol:

- Staff y Cyngor;
- Defnyddwyr y gwasanaeth;
- Trethdalwyr;
- Y cyfryngau;
- Busnesau lleol; a
- Grwpiau cymunedol.

Bydd dull corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i reoli a chymeradwyo'r negeseuon a gyfathrebir, lle ystyrir bod angen hynny, er mwyn sicrhau cysondeb i'r neges ar draws y Cyngor. Bydd y dull hwn yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Dylai pob neges a gyfathrebir egluro'r rheswm dros newid y ffi neu'r taliad (e.e. yn unol â chwyddiant, cynnydd mewn costau).
- Lle bo cynnydd mewn ffi neu daliad, dylai'r neges a gyfathrebir gynnig cyngor clir i ddefnyddwyr y gwasanaeth am y gostyngiadau sydd ar gael (os oes yna rai) i sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n gymwys i gael gostyngiad yn ei dderbyn.
- Dylid cydlynu amseriad y negeseuon a gyfathrebir yn unol â phryd y bydd y newid yn cael ei roi ar waith. Er enghraifft, yr amser gorau i roi gwybod am newidiadau i bris cinio ysgol fydd yn y tri mis cyn cychwyn blwyddyn academaidd yr ysgol.

Dylai unrhyw negeseuon y bwriedir eu cyfathrebu mewn perthynas â hyn gael eu gwirio gan Aelod Cabinet y portffolio dan sylw cyn cael eu hanfon.

***Cam 5***

Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cael ei dalu am y gwasanaethau y codir tâl amdanynt. Lle bynnag y bo'n bosib, dylai cwsmeriaid orfod talu'r ffioedd cyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu neu adeg darparu'r gwasanaeth, er mwyn lleihau'r perygl o beidio â thalu ac i helpu'r cwsmeriaid i reoli eu dyledion i'r Cyngor.

I'w gwneud yn haws talu ac i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, dylai bod amryw o ddulliau talu ar gael i'r cwsmer. Dylid hyrwyddo e-daliadau a threfnu debydau uniongyrchol fel y dulliau gorau o dalu.

Dylid cynnal adolygiad bob blwyddyn hefyd o'r dulliau a ddefnyddir i dalu am bob gwasanaeth. Dylai'r gwasanaethau ddangos bob blwyddyn, fel rhan o'r Datganiad Incwm, sut y mae taliadau'n cael eu casglu ar hyn o bryd, ac yna nodi'n eglur sut y mae'n bwriadu gwneud y broses gasglu'n fwy effeithlon gan ddefnyddio dulliau rhatach o dalu, a sut y mae'n bwriadu hyrwyddo a chyfeirio pobl at hyn. Dylai'r gwaith hwn fod yn gyson â'r amcanion a nodir o fewn Strategaeth Ddigidol y Cyngor.

***Cam 6***

Bob blwyddyn, dylai Aelodau, Prif Swyddogion a Rheolwyr Gwasanaethau ar hyd a lled y Cyngor fynd ati i ystyried cyfleoedd newydd i gynhyrchu incwm, ond ni ddylid ystyried y broses hon yn weithgaredd blynyddol yn unig; dylid mynd ati i archwilio cyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol trwy gydol y flwyddyn.

Dylai diben yr adolygiadau hyn fynd y tu hwnt i'r modelau arferol o ddarparu gwasanaeth, a chreu diwylliant mwy masnachol o fewn y sefydliad, gan wthio ffiniau'r hyn sy'n bosib ac archwilio syniadau newydd. Dylent drafod gwasanaethau unigol yn eu tro, asesu'r datblygiadau diweddaraf a'r arferion gorau mewn cynhyrchu incwm yn genedlaethol, ystyried syniadau newydd a gweld a ellir datblygu rhai o'r rhain.

Os bydd syniadau'n cael eu hamlygu, y Prif Swyddogion a Rheolwyr y Gwasanaethau fydd yn cael y dasg o'u harchwilio, eu datblygu a'u rhoi ar waith.

***Newidiadau yn ystod y flwyddyn***

Fel y nodir uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu modd i Brif Swyddogion, ar y cyd â'u Haelodau Cabinet Portffolio priodol, bennu ffioedd a thaliadau yn unol ag unrhyw bolisi neu strategaeth a gymeradwyir gan y Cabinet neu'r Cyngor (h.y. y polisi hwn).

Gyda chaniatâd ymlaen llaw, gellir amrywio ffioedd yng nghanol y flwyddyn er

mwyn rheoli galw trwy godi neu ostwng prisiau, gan sicrhau y rheolir y galw yn weithredol.

## 4 Gostyngiadau

Defnyddir gostyngiad pan fydd awdurdod lleol yn dewis pennu ffi llai na chost wirioneddol darparu'r gwasanaeth.

Mae pennu gostyngiadau'n dasg gydbwyso ofalus. Fe allai'r Cyngor fod eisiau targedu gwasanaethau penodol tuag at grwpiau penodol o drigolion, gan benderfynu defnyddio gostyngiad i wneud hynny. Er enghraifft, fe allai fod eisiau cynnig cymorth i bobl hŷn neu bobl ar fudd-daliadau. Fodd bynnag, bob tro y mae defnyddiwr gwasanaeth yn talu llai na chost llawn gwasanaeth, talwyr treth y cyngor sy'n darparu'r cymhorthdal, i bob pwrpas. Mae'n bwysig felly gwneud ymdrech i sicrhau y targedir cymorthdaliadau tuag at y defnyddwyr gwasanaeth hynny y mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad polisi ymwybodol i'w helpu.

Mae egwyddorion penodol yn bwysig felly wrth bennu'r angen am ostyngiad:

- Dylai'r Cyngor fod yn wyliadwrus o ymestyn gostyngiadau i bobl sy'n gallu neu'n fodlon talu mwy am wasanaeth.
- Ni ddylid defnyddio gostyngiadau ar gyfer gwasanaethau sy'n un o flaenoriaethau is y Cyngor.
- Dylid canolbwyntio gostyngiadau ar y grwpiau hynny sydd â'r mwyaf o angen ac sydd fwyaf mewn perygl.
- Rhaid i ostyngiadau fod yn dryloyw, yn hawdd eu deall yn iawn, gyda sail resymegol glir dros eu defnyddio.
- Rhaid deall goblygiadau pob gostyngiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor.
- Dylai tystiolaeth fod ar gael bod y gostyngiad yn hyrwyddo'r gwasanaeth ac o fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Dylai gostyngiadau fod yn anwahaniaethol o ran eu natur a'u heffaith.

Mae gostyngiadau yn debygol o fodoli ar lefel gwasanaeth penodol. Mae'n bwysig felly, wrth adolygu gostyngiadau, bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio. Byrddau Rhaglenni fydd yn ymgymryd â'r rôl hon fel rhan o'r broses a amlinellir yn adran 3 y polisi hwn uchod.

Fel rhan o Gam 2 y broses a amlinellir yn Adran 3 uchod. Bydd Byrddau Rhaglenni yn asesu a ddylid cefnogi cynigion gwasanaethau am ostyngiadau ai peidio.

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Bwrdd yn:

- Casglu’r wybodaeth sydd ar gael am gymorthdaliadau a ddarperir ar gyfer gwasanaethau y codir tâl amdanynt o’r Datganiadau Incwm.

- Gofyn i staff yr adaran Gyllid fapio canlyniadau ariannol cyffredinol cymorthdaliadau presennol i gyllideb y Cyngor.

- Asesu’r wybodaeth a ddarperir gan feysydd gwasanaeth ac ystyried y canlyniadau ariannol ar gyfer cyllideb y Cyngor a gyflwynwyd gan yr adran Gyllid. Tybiaeth y Bwrdd fydd bod angen i'r holl ostyngiadau gael eu cyfiawnhau, gan egluro goblygiadau ariannol y gostyngiad ar gyfer cyllideb ehangach y gwasanaeth.

- Fel rhan o’r broses hon, dylai’r Bwrdd gymharu’r angen am a chost cymorthdaliadau sy’n bodoli mewn gwahanol wasanaethau. I wneud hyn, dylai’r Bwrdd raddio’r gwasanaethau y codir tâl amdanynt, gan flaenoriaethu pwy ddylai dalu am y gwasanaeth trwy ofyn y cwestiynau canlynol:

    - A ddylai talwyr treth y cyngor dalu am y gwasanaeth (os felly, bydd y gwasanaeth am ddim i’r defnyddwyr)?

    - Neu a ddylai defnyddiwr y gwasanaeth dalu am y gwasanaeth (os felly, ni chynigir unrhyw gymhorthdal a bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn talu cost lawn y gwasanaethau)?

    - Faint fydd pob un o’r opsiynau hyn yn ei gostio i’r trethdalwr?

Ar sail yr uchod, gall y Bwrdd benderfynu pa rai o gynigion a chymorthdaliadau'r gwasanaeth y dylid eu cymeradwyo.

- Bydd y broses hon yn ei gwneud yn bosib blaenoriaethu cymorthdaliadau o fewn cyd-destun ariannol clir, er mwyn llywio penderfyniad y Bwrdd i anfon cynigion gwasanaethau mewn Datganiadau Incwm i'w cymeradwyo ai peidio.

Bydd y Cyngor yn cynnal y broses hon mewn cylch blynyddol.

# 5 Templed Datganiad Incwm

Bydd gofyn i bob maes gwasanaeth lenwi'r templed isod bob blwyddyn.

## *TEMPLED DATGANIAD INCWM*

Sylwch ar y canlynol:

- Rhaid i chi lenwi pob adran yn llawn.
- Mae croeso i chi ehangu maint pob blwch testun os bydd angen mwy o le arnoch.
- Cyflwynwch y ddogfen hon i *(enw aelod staff)* erbyn *(dyddiad)*.
- Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses, cysylltwch â *(enw aelod staff)*.

| | |
|---|---|
| **ENW'R MAES GWASANAETH A MANYLION CYSWLLT** | |
| **FFIOEDD A THALIADAU PRESENNOL** | **FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER 2017/18**<br>**(gan gynnwys cynnydd chwyddiannol)**<br><br>*Nodwch yn glir ffigwr % y newid uwchlaw chwyddiant ac eglurwch y sail resymegol dros y lefel ffi newydd.* |
| **PERFFORMIAD YN ERBYN TARGED INCWM Y GWASANAETH YN 2016/17** | **TARGED INCWM ARFAETHEDIG Y GWASANAETH AR GYFER 2017/18**<br><br>*Nodwch sail resymegol y targed a osodwyd.* |
| **COST Y GWASANAETH** | **% Y COSTAU A ADENILLWYD TRWY FFIOEDD**<br><br>*Os yw hwn yn llai na 100%, nodwch y sail resymegol ac amlinellwch y goblygiadau ar gyfer cyllideb y gwasanaeth a chyllideb ehangach y Cyngor, e.e. a fydd arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau'n gwneud iawn am y diffyg mewn incwm?* |
| **NATUR Y GALW AM Y GWASANAETH**<br><br>*Nodwch y ffigurau gweithgaredd / galw diweddaraf gan ddangos tueddiadau diweddar yn y farchnad.* | |
| **MEINCNODI GYDAG AWDURDODAU LLEOL ERAILL**<br><br>*Rhowch dystiolaeth o brisiau cymaradwy y mae awdurdodau lleol eraill yn eu codi yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.* | |
| **GWYBODAETH AM DDARPARWYR AMGEN**<br><br>*Nodwch unrhyw gystadleuaeth i ddarparu'r gwasanaeth yn yr ardal leol, gyda gwybodaeth am y prisiau a gynigir a'r gyfran o'r farchnad os yw hynny ar gael.* | |
| **ATEGU NODAU POLISI'R CYNGOR**<br><br>*Rhowch wybodaeth am sut y mae lefel y ffi yn cefnogi unrhyw rai o nodau polisi'r Cyngor.* | |

| |
|---|
| **GOSTYNGIADAU**<br><br>*Rhowch wybodaeth am unrhyw ostyngiadau presennol neu arfaethedig, gan gynnwys:*<br><br>• *Y sail resymegol dros gynnig gostyngiad;*<br><br>• *Tystiolaeth bod y gostyngiad yn hyrwyddo'r gwasanaeth ac o fudd i'r defnyddwyr gwasanaeth sydd â'r mwyaf o angen ac sydd fwyaf mewn perygl, ac nad yw pobl sy'n gallu neu'n fodlon talu yn cael gostyngiad; a*<br><br>• *Goblygiadau ariannol unrhyw ostyngiad a gynigir ar gyfer sefyllfa gyffredinol y Cyngor.* |
| **DADANSODDIAD O EFFAITH**<br><br>*Nodwch sut y bydd y lefel ffi newydd yn effeithio ar:*<br><br>• *Ddefnyddwyr y gwasanaeth;*<br><br>• *Cymunedau; a*<br><br>• *Materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.* |
| **DULL CASGLU**<br><br>*Nodwch ddulliau talu'r ffioedd ar hyn o bryd ac amlinellwch sut y gellir gwneud hyn yn fwy effeithlon yn y flwyddyn sydd i ddod.* |
| **STRATEGAETH GYFATHREBU**<br><br>*Nodwch sut y bydd y budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, busnesau lleol, staff a'r trethdalwyr, yn cael gwybod am y newid yn y ffioedd a'r taliadau.* |
| **PENDERFYNIAD BWRDD Y RHAGLEN A'R CAMAU NESAF**<br><br>*Ar ôl i Fwrdd y Rhaglen roi ystyriaeth i'r Datganiad Incwm, cofnodwch y penderfyniad terfynol yma, ynghyd â'r camau nesaf a argymhellir o ran cymeradwyaeth neu unrhyw gais am waith pellach.* |